



Abertawe
Hawliau
Dynol

Swansea
Human
Rights

Arweiniad **HAWLIAU** yn eich **Poced**

Abertawe:
Dinas Hawliau Dynol 1af Cymru
Lle mae pawb yn cyfrif



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council



Abertawe | **Swansea**
Hawliau
Dynol | Human
Rights

Beth yw Hawliau Dynol?

Mae Hawliau Dynol yn rheolau sy'n amddiffyn pobl. Dyma'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol sy'n perthyn i bob person yn y byd, o enedigaeth tan farwolaeth. Mae pob un ohonom wedi'n geni gyda Hawliau Dynol ac er y gallant fod yn gyfyngedig weithiau, ni ellir cymryd eich hawliau oddi wrthyh.

Yn y DU diogelir rhai o'n Hawliau Dynol gan gyfraith y DU. Er bod gennym hawliau eraill sydd wedi'u gwarantu gan gyfraith ryngwladol y mae'r DU yn rhwymedig iddynt, nid yw'r rhain yn rhan o gyfraith y DU, er enghraifft Confensiwn Hawliau'r Plentyn.



Pa hawliau sydd gen i yn y DU?

Mae cyfraith y DU yn gwarantu'r Hawliau Dynol sy'n cael eu nodi yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol¹. Y rhain yw:

Erthygl 2: Yr hawl i fywyd



Ni all neb geisio dod â'ch bywyd i ben. Dylai Awdurdodau Cyhoeddus (Llywodraeth, awdurdodau lleol, yr Heddlu) ystyried eich hawl i fywyd wrth wneud penderfyniadau a allai eich rhoi mewn perygl neu sy'n effeithio ar eich disgwyliad oes.

Erthygl 3: Rhyddid rhag artaith a thriniaeth annynol neu ddiraddiol



Does gan neb yr hawl i'ch brifo chi, yn feddyliol neu'n gorfforol. Mae'n rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus eich amddiffyn os yw rhywun yn eich trin fel hyn.

troednodyn

- 1 Drafftwyd y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) ym 1950 gan y Cyngor Ewropeaidd. Mae'n gonfensiwn rhyngwladol i amddiffyn hawliau dynol a rhyddid gwleidyddol yn Ewrop. Mae'r DU yn dal i gymryd rhan yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Erthygl 4: Rhyddid rhag caethwasiaeth a llafur gorfodol



Mae gennych yr hawl i beidio â chael eich trin fel caethwas. Ni ellir eich gwneud i weithio am ddim.

Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch



Mae gennych yr hawl i ryddid. Ni ddylech gael eich arestio na'ch rhoi dan glo heb reswm da. Os cewch eich arestio, rhaid i'r heddlu ddod â chi gerbron llys.

Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg



Rydych yn ddieuog nes y cewch eich profi'n euog. Mae gennych yr hawl i amddiffyn eich hun a chael cymorth cyfreithiol. Dim ond llys all ddweud os ydych yn euog o drosedd.

Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith



Gellir eich cael yn euog o drosedd dim ond os oedd y drosedd honno yn erbyn y gyfraith pan gwnaethoch ei chyflawni.

Erthygl 8: Parch at eich bywyd preifat a theuluol, eich cartref a'ch gohebiaeth



Mae gennych yr hawl i fyw eich bywyd yn eich ffordd eich hun, heb unrhyw ymyriad.

Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cred a chrefydd



Mae gennych yr hawl i gredu beth bynnag y dymunwch. Ni all eraill ddweud wrthych beth i'w gredu.

Erthygl 10: Rhyddid mynegiant



Mae gennych yr hawl i ddweud eich dweud a choleddu'ch barn eich hun.

Erthygl 11: Rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu



Mae gennych yr hawl i ddod at eich gilydd gyda phobl eraill mewn ffordd heddychlon.

Erthygl 12: Yr hawl i briodi a dechrau teulu



Mae gennych yr hawl i briodi a dechrau teulu. Mae'r gyfraith yn y wlad hon yn dweud sut ac ar ba oedran y gall hyn ddigwydd.

Erthygl 14: Diogelu rhag gwahaniaethu mewn perthynas â'r hawliau hyn a'r rhyddid hwn



Mae gan bawb hawliau cyfartal. Ni ddylech gael eich trin yn annheg oherwydd eich hil, eich crefydd, eich rhyw, eich oedran, eich barn wleidyddol, eich anabledd neu unrhyw beth arall.

Protocol 1, Erthygl 1: Yr hawl i fwynhau eich eiddo mewn heddwch



Mae gennych yr hawl i fwynhau'r pethau rydych chi'n berchen arnynt. Ni all unrhyw un ymyrryd â phethau rydych chi'n berchen arnynt na'r ffordd rydych chi'n eu defnyddio, heb reswm da iawn.

Protocol 1, Erthygl 2: Yr hawl i addysg




Mae gennych yr hawl i ddefnyddio ysgolion a cholegau.

Protocol 1, Erthygl 3: Yr hawl i gymryd rhan mewn etholiadau am ddim



Rhaid i etholiadau fod am ddim ac yn deg. Rhaid iddynt fod yn bleidleisiau cyfrinachol, mae hyn yn golygu nad yw'n fusnes i neb arall sut rydych yn pleidleisio.

Protocol 13, Erthygl 1: Diddymu'r gosb marwolaeth



Ni ellir eich dedfrydu i farwolaeth am unrhyw drosedd.

Defnyddir yr eiconau gyda chaniatâd Sefydliad Hawliau Dynol Prydain (BIHR).

Nid yw'r BIHR wedi bod yn gysylltiedig â chynhyrchu na chymeradwyo'r arweiniad poced hwn.

Beth mae'n ei olygu i mi?

Mae gan bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft, awdurdodau lleol, yr Heddlu, y GIG, ddyletswydd gyfreithiol, o dan gyfraith y DU, i gydymffurfio â'r 16 o hawliau y cyfeirir atynt uchod (oni bai fod cyfraith y DU yn golygu nad oes ganddynt ddewis ond torri'ch hawliau). Mae'r ddyletswydd hon yn bwysig iawn mewn sefyllfaoedd pob dydd oherwydd mae'n golygu y gallwch:

- **Siarad o blaid eich hun** gan fod gennych hawliau dynol y dylid eu hamddiffyn a'u cefnogi
- **Siarad â'ch gwasanaethau** ynghylch a ydynt yn cyflawni'u dyletswydd gyfreithiol i barchu ac amddiffyn eich hawliau dynol
- **Gweithio gyda gwasanaethau i ddod o hyd i atebion gwell** heb fod angen mynd i'r llys neu ddefnyddio cyfreithiwr

Beth rydym ni'n ei wneud yn Abertawe?

Mae Abertawe'n dod yn Ddinas Hawliau Dynol. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau cyhoeddus fel y cyngor, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ymrwymo i roi hawliau dynol a rhyddid sylfaenol eu preswylwyr wrth wraidd popeth a wnânt. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i warantu o dan gyfraith y DU. Byddwn yn ymchwilio i sut gallwn wella Hawliau Dynol a Chonfensiynau Rhyngwladol yma yn Abertawe

Rydym am greu dinas lle mae pawb yn gyfartal. Grymuso pobl i ddeall eu hawliau a pharchu hawliau eraill. Cymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Bydd hyn yn creu dinas decach, fywiog, amrywiol a mwy diogel i bawb.

Ym mis Gorffennaf 2022, cydnabu Cyngor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig am y tro cyntaf fod cael amgylchedd glân, iach a chynaliadwy yn Hawl Dynol. Mae Cyngor Abertawe a'n partneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu ar argyfyngau newid yn yr hinsawdd a natur ac wedi llofnodi Siarter, gan ymrwymo i gydweithio i fod yn Sero Net a chreu Abertawe wyrddach erbyn 2050.et a chreu Abertawe wyrddach erbyn 2050.

Mae Cyngor Abertawe wedi gwreiddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Pan fyddwn yn creu polisiâu newydd neu'n diwygio polisiâu, rydym yn sicrhau ein bod wedi ystyried yr effaith ar hawliau plant a phobl ifanc. Rydym yn ymrwymedig i greu llwyfan ar gyfer newid er mwyn sicrhau diwylliant lle mae hawliau plant yn cael eu hystyried yn ein holl waith, gan arwain at well gwasanaethau a bywydau i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn Abertawe.

Sut i fod yn rhan o hyn

Addawch eich cefnogaeth i Abertawe ddod yn Ddinas Hawliau Dynol gyntaf Cymru:

www.abertawe.gov.uk/ddinashawliaudynol

I addo'ch cefnogaeth drwy e-bost neu dros y ffôn:

E-bostiwch: hawliaudynol@abertawe.gov.uk

Ffoniwch: 01792 636000

Gwneud Addewid Hinsawdd

www.abertawe.gov.uk/addewidhinsawdd

Gallwch hefyd addo'ch cefnogaeth drwy ysgrifennu at: Newid yn yr Hinsawdd, Cyngor Abertawe, Canolfan Ddinesig, Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN.

Am wybod mwy am eich Hawliau?

Tîm Cynllun Hawliau Plant Cyngor Abertawe

Gwefan: www.abertawe.gov.uk/ccuhp

E-bost: UNCRC@abertawe.gov.uk

Ffôn: 07929 719528

Sefydliad Hawliau Dynol Prydain (BIHR)

Mae BIHR yn darparu gwybodaeth ac adnoddau ar hawliau dynol ond nid yw'n darparu cyngor cyfreithiol na chymorth gwaith achos

Gwefan: www.bihr@org.uk

Ffôn: 020 3039 3646

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Gwefan: <https://comisiynyddph.cymru/>

Ffôn: [03442 640 670](tel:03442640670)

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Comisiynydd Plant Cymru

Gwefan: www.complantcymru.org.uk

Ffôn: [01792 765600](tel:01792765600)

E-bost: cyngor@complantcymru.org.uk

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mae'n cynnig gwybodaeth i helpu pobl i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn uniongyrchol i gwestiynu sut mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni datblygu cynaliadwy

Gwefan: www.futuregenerations.wales/cy

Ffôn: 02921 677 400

E-bost: cysywlltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenedloedd Unedig

Mwy am hawliau dynol a warentir gan gyfraith ryngwladol:

Gwefan: www.ohchr.org/en/ohchr_homepage

Ffôn: +41 22 917 9220

E-bost: ohchr-InfoDesk@un.org

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

Gwefan: www.equalityhumanrights.com/cy/comisiwn-yng-nghymru

Am gyngor penodol:

Gwasanaeth Cefnogi a Chynggori ar Gydraddoldeb

Gwefan: www.equalityadvisoryservice.com

Ffôn: 0808 800 0082

Ffôn testun: 0808 800 0084

Clinig y Gyfraith Abertawe

Mae'n cynnig cyngor cychwynnol am ddim am broblemau cyfreithiol wrth roi cyfle i'n myfyrwyr weithio ochr yn ochr â chyfreithwyr gweithredol i gynghori cleientiaid go iawn.

Gwefan: www.swansea.ac.uk/law/lawclinic/

E-bost: lawclinic@swansea.ac.uk

Ffôn: 01792 295387

Canolfan Gyfreithiol y Plant

E-bost: childrenslegalcentre@swansea.ac.uk

Cyfeiriad: Technium Digidol,
Prifysgol Abertawe,
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP